

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD YNGLŶN AG ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4)(d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o Adroddiad Blynyddol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Ystyriodd y Panel Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16 yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2016.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol Ebrill 2015 i Fawrth 2016 ac felly yn cwmpasu'r cyfnod cyn y cafodd Mr Arfon Jones, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd newydd ei ethol i'r swydd. Roedd yn canolbwyntio ar sut yr arferai Mr. Winston Roddick CB QC weithredu ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn a'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag amcanion heddlu a throsedd o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cyflwyniad gan Mr. Arfon Jones a'i flaenoriaethau cychwynnol, a oedd yn cynnwys craffu ar sut mae achosion cam-drin domestig yn cael eu trin, gyda'r nod o gynyddu euogfarnau a chynyddu'r defnydd o wisgo fideo ar y corff i gefnogi'r collfarnau hynny.

Argymhellion

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2015/16.